


papur



priordy



Dewiswyd gan Dewi Llyr Snelson

Gweler y rheswm am ei ddewis y tu mewn

Rhifyn 353

PAPUR MAWRTH 2022

Gair gan ein Gweinidog

Diolch i bawb a ymunodd yn yr amrywiol ddathliadau a gynhaliwyd gennym o fewn ein gofalaeth i nodi Dydd Gŵyl Dewi

Rwy'n siŵr eich bod yn cytuno ei bod yn hyfryd medru cymdeithasu unwaith eto wedi cyfnod rhy hir o lawer o hunanynysu.



A pha well ffordd o ailgychwyn y cymdeithasu nag adeg dathlu Gŵyl ein Nawddsant, Dewi.

Mae llawer o'r hyn yr ydym yn ei wybod am Dewi yn dod o waith Rhygyfarch ap Sulien, awdur o'r 11eg ganrif a ysgrifennodd 'Buchedd Dewi'.

Gan i waith Rhygyfarch gael ei ysgrifennu dros 500 mlynedd wedi i Dewi farw, mae amheuaeth pa mor ddibynadwy yw'r hanes.

Mae nifer o chwedlau yn ymwneud â Dewi, ond efallai mai'r enwocaf yw'r bregeth yn Llanddewi Brefi, Ceredigion. Casglodd torf anferth i wrando ac roedd llawer yn cwyno nad oeddent yn gallu gweld na chlywed beth oedd yn digwydd.



Dywed y chwedl i Dewi osod hances ar y llawr cyn sefyll arni, ac yn sydyn, cododd bryn bach o dan ei draed gan ei godi fel y gallai pawb ei weld. Mae rhai yn dweud hefyd fod colomen wen wedi glanio ar ei ysgwydd, yn arwydd gan Dduw o'i sancteiddrwydd.

Caiff y golomen le anrhydeddus mewn nifer o bortreadau gweledol o Dewi Sant, yn baentiadau ac yn ffenestri lliw.

Tra bo'r golomen yn arwydd o sancteiddrwydd Duw, mae'r aderyn hefyd yn symbol o heddwch. Cafodd ei defnyddio gan y Groegiaid ac yn Siapan hynafol.

Mabwysiadodd Cristnogaeth y golomen fel symbol o Dduw, yr

Ysbryd Glân sy'n dod â rhodd o heddwch i'r byd.



Taenwyd cwmwl o ofid a thristwch dros ein byd adeg Gŵyl ein Nawddsant eleni, gyda lluniau erchyll ar ein sgrîniau o filwyr Rwsia yn ymosod ar wlad Wcráin.

Mae'r golomen ar ysgwydd Dewi Sant yn ein hatgoffa pa mor real yw'r angen dybryd am heddwch yn ein byd heddw.



DYMA weddi gan Gymorth Cristnogol

**Dywysog Tangnefedd,
gweddiwn dros yr Wcráin
a'r tensiwn sy'n cynyddu yn y rhanbarth.
Gweddiwn dros bawb sydd â dylanwad,
y bydd doethineb yn ben
ac y bydd y dyhead am heddwch yn goresgyn.
I bawb sy'n byw gyda phryder a chonsŷrn
Bydded heddwch yn eu calon.
Amen**



Gweddiwn

**Diolchwn i ti, ein Tad, am Gymru.
Diolch i Ti am roi gwlad mor hyfryd i ni.
Diolch i ti bod Cristnogaeth wedi dod i'n gwlad ni
ganrifoedd yn ôl.**



**Diolch i ti am ddynion duwiol fel Dewi oedd yn ceisio dy
wasanaethu di.**

**Diolchwn am William Morgan a'r Beibl yn Gymraeg.
Diolchwn i ti am ein hiaith hyfryd, farddonol.
Heddiw rydyn ni'n gofyn i ti unwaith eto i fendithio ein hardal
a'n cenedl.**

**Helpa ni i fyw i dy blesio di,
i dy garu Di,
i ddilyn Iesu
ac i helpu pobl o'n cwrpas ni.
Amen**

BWRLWM YN YR YSGOL SUL




DATHLU 150 Y PRIORDY

Y dyddie yma, does dim hanner digon o ddathlu'n digwydd ar unrhyw beth oes e?

Ers dwy flynedd fe gaeon ni'n drysau, cadw pellter a gohirio pob dim. Bu'n rhaid dathlu pennau blwydd mewn modd *low-key* yn ystod y cyfnod clo, a nodi pethau da fel llwyddiant

arholiadau, pen-blwyddi priodas, babis newydd ac yn y blaen, yn rhithiol neu wedi'n hymbellhau yn gymdeithasol, wrth gwrs.

Wel, ganrif a hanner yn ôl, mi ddigwyddodd rhywbeth da yn y rhan hon o dref Caerfyrddin. Cychwynnwyd eglwys y Priordy ar Heol y Prior gyda'r gweinidog y Parchg D. Cadvan Jones. Roedd yr eglwys i wasanaethu'r hon o'r dre, rhan dlawd a diwydiannol o'r dref oedd ardal



Tanerdy a Heol y Prior ar y pryd, roedd yn lle bywiog heb os. Poenai nifer bod angen tystiolaeth Gristnogol yn y rhan hon o'r dref, rhag i'r bobl fynd yn rhy wyllt. Yn wir, roedd nifer yn ofni fod y ddiod feddwol yn mynd yn drech na nifer ar y pryd; yn aml, pe bai ffeith yn digwydd ar y stryd, galw am y gweinidog fyddai pobl er mwyn tawelu'r dyfroedd ac nid yr heddlu.

A dyma ni o hyd, yn dal i fod ar y patshyn bach hwn o dir yn hen dref Myrddin, yn dal i addoli, ac yn dal i foli Duw. Rhyfedd o fyd. Mae gennym reswm da dros ddathlu, gan obeithio

y cawn ni gyfle i wneud hynny'n iawn.

I NODI'R achlysur hwn, mae eglwys y Priordy'n cyhoeddi cyfrol fechan sy'n crynhoi hanes yr achos mewn geiriau ac mewn lluniau. Ac



o bori rhwng y cloriau, darllen yr hanes a mwynhau'r lluniau, gobeithio wir y teimlwch eich bod chithau'n rhan o hanes y Priordy ac o hanes y dref hon.

Diolch i Elinor am y cyflwyniad hwn i gyfrol y dathlu. Mae'n dyled yn fawr iawn iddi hefyd am ddod â'r holl gynnwys ynghyd, golygu'r testun a chysylltu â'r wasg bob cam o'r daith – tasg sydd wedi golygu llawer iawn o ymroddiad. Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.



DARLLENIADAU



MIS MAWRTH	DARLLENIAD
Wythnos 1	Luc 4: 1-13
Wythnos 2	Luc 13: 31-35
Wythnos 3	Luc 13: 1-9
Wythnos 4	Luc 15: 1-3, 11b-32

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

JANET A GWYNFOR DAVIES

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

YN MWYNHAU TE P'NAWN!




Gwasanaeth PIP

Bore Sul 13 Chwefror, 2022



ER bod y tywydd yn arw a gwlyb y tu allan, cynnes oedd y croeso yn y gwasanaeth dan ofal PIP (Pobl Ifanc y Priordy). Croesawyd pawb gan ein Gweinidog a dechreuwyd drwy ganu'r emyn '*Y mae in Waredwr*'. Alison Parsons oedd yng ngofal y cyhoeddiadau, a braf oedd clywed rhestr hirfaith o ddigwyddiadau a gweithgareddau'n ymwneud â'r Eglwys o fewn yr wythnosau nesaf; dyma lygedyn o obaith bod pethau'n dechrau dychwelyd i drefn wedi'r pandemig. Gwnaed y casgliad yn hollol ddi-ffws gan Iestyn, Caleb, Beca a Sianco, a chyhoeddodd Beti-Wyn fod y casgliad rhydd yr wythnos hon yn mynd tuag at Goleg yr Annibynwyr Cymraeg.

Cyn i'r plant droedio tuag at y festri ar gyfer yr Ysgol Sul, cafodd Beti-Wyn y cyfle i siarad â nhw. Eglurodd ein Gweinidog ei bod wedi cael wythnos brysur yn ceisio tacluso a rhoi trefn ar bethau yn y tŷ. Wrth glirio, daeth ar draws llyfrau yn perthyn i Elin a Sara pan oeddent yn iau. Ar y sgrîn dangosodd lun o ddau lyfr am eliffantod oedd wedi tynnu ei sylw. Llyfr yn llawn ffeithiau oedd y llyfr cyntaf, a stori'r eliffant enwog 'Elfed' oedd y llall. Aeth Beti-Wyn ati i sôn am rai o rinweddau arbennig yr eliffant. Tybed faint ohonoch chi'r darllenwyr oedd yn gwybod bod eliffantod, nid yn unig yn gallu clywed drwy'u clustiau mawr, ond hefyd trwy'u traed! Yn bendant, doeddwn i ddim yn ymwybodol o'r ffaith yma! Llygaid bach sydd gan Eliffantod, ac yn anffodus nid yw eu golwg yn grêt, ond nid yn unig mae ganddynt allu arbennig i arogli ond hefyd gof arbennig. Tair rhinwedd arall mae eliffantod yn meddu arnynt yw:




- 1) Gofalu am ei gilydd. Mae Eliffantod yn sicrhau eu bod yn gofalu am aelodau eraill o'r teulu yn ogystal ag eliffantod sydd ddim yn

perthyn i'r un llinach teuluol.

2) Helpu ei gilydd. Amyneddgar iawn ydy'r eliffantod hŷn gyda'r rhai iau, ac yn aml iawn gwelir lluniau ohonynt yn helpu ei gilydd mewn trafferth.

3) Dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae'r eliffantod iau yn dysgu cymaint oddi wrth y rhai hŷn.

Aeth Beti-Wyn ati wedyn i nodi'r tebygrwydd rhwng rhinweddau eliffantod, a'n rhai ni fel Cristionogion. Does dim dwywaith ein bod ni fel aelodau o Eglwys y Priordy yn gofalu am ein gilydd. Mae'n arferol bellach ein bod ni fel eglwys yn cefnogi elusen leol yn fisol, ac yn ystod mis Chwefror ein braint yw gallu cefnogi apêl Canolfan Byddin yr Iachawdwriaeth; dyma enghraifft berffaith o sut ydym yn helpu a gofalu am ein gilydd. Yn yr Ysgol Sul, mae'r plant yn ffodus i gael dysgu am hanes y Beibl a sut i fod yn ddinasyddion gwâr gan aelodau hŷn yr Eglwys. Pwy feddyliai ein bod ni yma yn y Priordy mor debyg i ddiffantod! Wrth ganu'r emyn nesaf, sef '*Ceisiwch yn Gyntaf*', aeth y plant i'r Ysgol Sul, a throsglwyddodd Beti-Wyn yr awennau i aelodau PIP.



Ar ddydd Mawrth, 8 Chwefror roedd hi'n ddiwrnod codi ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y we, ac felly roedd neges PIP yn amserol iawn, sef y dulliau sy'n cael eu defnyddio i sgamio pobl ar y ffôn, ar y we neu drwy



dderbyn llythyron drwy'r post. Cyflwynodd Jac ac Ethan ffeithiau diddorol i ni am y dulliau gwael sy'n cael eu defnyddio i dwyllo pobl. Tybed a ydych chi wedi cael eich sgamio? Tybed a ydych chi ar y 'suckers list'? Ydych chi wedi clywed am y term 'suckers list'? Os na, peidiwch â phoeni dim, achos doeddwn i erioed wedi clywed am y term yma 'chwaith! Diolch i Ethan, cawsom wybod mai

taenlen fawr sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol am bobl o bob rhan o'r byd ydy 'suckers list'. Bob tro y bydd rhywun yn ymateb i sgam, bydd ei enw yn cael ei ychwanegu at y rhestr hon, ac yna bydd y rhestr

yn cael ei gwerthu i bobl ar draws y byd i gyd. Wel wir! Pwy feddyliai! Tybed a yw fy enw i, neu enw rhai ohonoch chi ar y rhestr hon?

Wrth i Jac ac Ethan adael y pulpud, cawsom y cyfle i wyllo ffilm fer oedd wedi ei pharatoi gan Beti-Wyn am sgamio. Roedd y ffilm yn cynnwys straeon o'r wasg ynglŷn â sgamio, a gwelwyd poster yn hysbysebu un o'r sgamiau mwyaf diweddar yn ymwneud â'r broses o 'Olrhain a Phrofi' (Track and Trace) gan GIG. Rydw i wedi derbyn ambell i ebost ffug, ond rhaid cyfaddef bod rhai o'r ebyst hyn wedi peri i fi feddwl am eu dilysrwydd gan eu bod yn edrych mor wir.

Byddwch yn ofalus, da chi! Cynnig cyngor defnyddiol i ni am sut i osgoi cael ein sgamio wnaeth Syfi, Carina a Betsan, a diolch iddynt am godi ymwybyddiaeth am y math o gliwiau y dylid edrych mas amdanynt os ydym yn derbyn ebost, yn mynd ar safle we ffug neu'n derbyn galwad ffôn. Dyma rai o gynghorion y merched:

- Mae gan sgamiau e-bost gyfeiriad sy'n wahanol i gyfeiriad gwefan y sefydliad
- Os gofynnir i chi am eich manylion personol megis rhif eich cyfrif banc neu gyfrinair, mae hyn yn arwydd arall o sgam
- Sicrhewch eich bod yn defnyddio system gwrthfeirws ar eich cyfrifiadur, a'ch bod yn newid cyfrinair yn rheolaidd
- Os nad ydych wedi ymgeisio mewn cystadleuaeth, yna nid ydych wedi ennill
- Os yw'n swnio'n rhy dda i fod yn wir, yna o bosib mae'n debygol o beidio â bod yn wir
- Peidiwch â dioddef yn ddistaw; soniwch wrth eraill am sgamiau

Cyngor doeth iawn ferched. Tro Gwenllian oedd hi nesaf i roi datganiad arbennig i ni ar y ffidil. Dros y blynyddoedd, mae wedi bod yn hyfryd gweld talent cerddorol Gwenllian yn datblygu ar y ffidil, a hithau erbyn hyn wedi pasio gradd 8; ardderchog yn wir. Wrth i Gwenan ddod i'r pulpud, cawsom y cyfle i dreulio ychydig amser nid yn unig yn diolch i bawb sy'n cyfrannu tuag at ein diogelwch mewn unrhyw ffordd, ond hefyd i feddwl am ffyrdd da y gallwn ni gyfrannu at ein cymuned. Aeth

Gwenan ati wedyn i gyflwyno'r emyn nesaf sef *'Ein gwlad a'n pobl gofiwn nawr'*.

Siwan a Gwenllian Jones oedd aelodau diwethaf PIP i gyfrannu at y gwasanaeth, a chyfeiriodd y ddwy at y ffaith bod pob scam yn anonest. Mae'r Beibl yn dysgu am onestrwydd, a chyfeiriodd y ddwy at yr hyn sydd gan Lyfr y Diarhebion i'w ddweud am bwysigrwydd byw yn onest *'Mae'n gas gan yr Arglwydd glorian dwyllodrus, ond mae defnyddio pwysau cywir wrth ei fodd'* Does dim dwywaith ein bod yn byw mewn byd lle mae cymaint o bobl yn ceisio dylanwadu arnom a'n twyllo, ond rhaid i ni gadw'n gryf a sicrhau ein bod yn dilyn dysgeidiaeth Iesu.



DIOLCHODD Beti-Wyn i griw PIP am eu cyfraniadau arbennig i'r gwasanaeth, ac i Janet a Heather am gyfeilio. Hoffwn i gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr i Jac, Ethan, Syfi, Gwenllian Howells, Carina, Betsan, Gwenllian Jones a Siwan am eu cyfraniadau arbennig ac am gyflwyno eu gwaith yn huawdl a graenus. Diolch iddynt am godi ymwybyddiaeth o bwnc sydd mor bwysig ac amserol. Daethpwyd â'r gwasanaeth i ben drwy ganu'r emyn *'Cyfrif ein bendithion'*, a throediodd pawb tuag adref wedi cael y cyfle i dderbyn cynghorion defnyddiol a doeth iawn gan ein pobl ifanc.



Aelodau PIP (Pobl Ifanc y Priorddy) a fu'n arwain y gwasanaeth

Tudur Dylan Jones...

Silas Evans 1864-1953



Os ewch chi ar y ffordd o Gaerfyrddin i Lambed, byddwch chi'n gyrru trwy bentref Pencarreg. Dyma'r pentref lle bu Gwynfor Evans yn byw hyd ddiwedd ei oes, ac mae llawer yn cofio'r ddraig goch hynod y tu allan i'w gartref. Ond mae sawl rheswm arall pam mae Pencarreg yn bwysig, ac un ohonyn nhw ydy mai o'r plwyf hwn y daeth un o'r offeiriaid hynotaf i gamu i bulpud yng Nghymru, sef Y Parch Silas Evans.

Mae gan yr Eidal ei Michelangelo, ac mae gan Gymru Silas Evans. Roedd Michaelangelo wedi treulio pedair blynedd yn arlunio ar nenfwd Capel y Sistine yn Rhufain, gan greu campwaith sydd yn dal yr un mor llachar heddiw ag erioed.

Pan oedd Silas Evans yn ficer yn Llanrhaeadr ym Mochnant, yr un plwyf ag y bu'r Esgob William Morgan yn gwasanaethu, penderfynodd yntau hefyd dreulio amser yn arlunio nenfwd yr eglwys - nid gyda golygfeydd o'r Beibl, ond gyda lluniau'r sêr a'r planedau.

Os chwiliwch ei hanes yn Y Bywgraffiadur Cymreig ar y we, dau air sy'n ei ddisgrifio, sef 'offeiriad a seryddwr'. Cafodd ei addysg yn 'Academi Caerfyrddin' yn Heol Awst o dan arweiniad Alwyn C. Evans, un o hynfiaethwyr amlycaf y dref. Bu'n fyfyrwr yn y Brifysgol yn Llanbedr Pont Steffan, a bu'n gwasanaethu mewn plwyfi ar hyd a lled gogledd ddwyrain Cymru.

Roedd wedi astudio'r sêr a'r planedau'n fanwl, cymaint felly nes yr ysgrifennodd gyfrol o'r enw *Seryddiaeth a Seryddwyr*. Mae'n llyfr prin iawn erbyn hyn, gyda chopïau yn gwerthu at yn agos i £100 a mwy. Cyhoeddwyd y gyfrol ym 1923, ac ynddi mae'n rhoi manylion am bopeth gofodol gan gynnwys manylion am seryddwyr o Gymru dros y canrifoedd.

Wrth gyfeirio at blaned Gwener mae'n cyfeirio at ddigwyddiad a fyddai'n ymddangos ymhen bron i ganrif yn y dyfodol sef pan fyddai'r haul yn ymddangos o flaen y blaned:

Cymer y trosiad nesaf le ar Mehefin 7fed, 2004, a bydd un eilwaith, wrth gwrs, ymhen wyth mlynedd, sef ar Mehefin 5ed 2012!!! Wel, wel, ymhell cyn hynny bydd y mwyafrif mawr ohonom ni wedi mynd i ffordd yr holl ddaear, ond mae yn sicr gennym y cawn weld golygfeydd a rhyfeddodau na ddaeth i galon dyn erioed i ddirnad amdanynt, gan gauom ein llygaid am y tro diwethaf ar y ddaear hon ac esgyn fry hu hwnt i'r sêl!"

Yn anffodus, erbyn heddiw, mae campwaith Silas Evans ar nenfwd Eglwys Llanrhaeadr ym Mochnant wedi diflannu am byth, oherwydd mae rhywun wedi mynd ati i beintio dros y cyfan. Ond mae rhan bwysig arall o'i waith sef y gyfrol, yn dal ar gael, ac yn dal i fod yn ffrwyth pleser a gwybodaeth. Cyfeiriodd yn y gyfrol y bydd pob un ohonon ni rywbyrd yn "mynd i ffordd yr holl ddaear". Digwyddodd hynny i Silas Evans ym 1953.



Ond ar Fawrth 11eg rydyn ni'n cofio am ei eni, ac ar yr un pryd yn cofio am farwolaeth ei hen athro ar union yr un dyddiad ym 1902.


Wrth i chi yrru trwy bentref Pencarreg, byddai'n werth i chi droi i'r dde i gyfeiriad yr eglwys. Cerddwch i mewn i'r fynwent, ac yn syth fe welwch chi garreg fedd ar ffurf croes ar y dde. Dyma fedd Silas Evans gyda'r adnod addas hon arno.

"Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef."

Lluniau

(a) *Seryddiaeth a seryddwyr* (1923)

(b) *Bedd Silas Evans, Eglwys Pencarreg*



DYDDIAD DATHLU NAWDDSEINTIAU



Rhowch gynnig arni!!

1	San Siôr	Lloegr	
2	San Padrig	Iwerddon	
3	Sant Andreas	Yr Alban	
4	Santes Cecilia	Cerdd	
5	Sant Christopher	Teithio	
6	San Sebastan	Chwaraeon	
7	Santes Dwynwen	Cariadon	
8	Sant Ffolant	Cariadon	
9	Sant Ffransis	Anifeiliaid	
10	Sant Luc	Meddygon	



Atebion ar Dudalen 40



MUNUD I FEDDWL

BOB BORE MAWRTH TRWY FIS MAWRTH – BETI-WYN

HOBI CYFFROUS!

Tybed beth yw'ch hobi chi? Does yr un ohonom yn rhy hen i gael un, dybiwn i!




Mae hobiau yn ein helpu i ymlacio ac i feddwl am bethau eraill. A thrwy gael hobiau gwahanol rydym hefyd yn gallu gwneud ffrindiau newydd – a hynny wyneb yn wyneb neu ar lein. Mewn rhai achosion, fel coginio er enghraifft, mae'r hobi wedi troi'n ffynhonnell incwm newydd hyd yn oed! Mewn achosion eraill, mae pobl wedi llwyddo i godi iaith newydd, fel Gaeleg a Chymraeg/yn ystod y blynyddoedd diwethaf hyn.

A pha well ffordd o godi calon a chadw'r meddwl yn iach a chwim yn ystod pandemig y coronafeirws nag ymddiddori mewn hobi!

Mae'r iwcaleli wedi dod yn offeryn poblogaidd iawn yn enwedig mewn dosbarthiadau cerdd yn yr ysgol. Yn wir, mae'n debyg ei fod yn dechrau dod yn fwy poblogaidd na'r recordydd. Mae **ABRSM** (*Associated Board of The Royal Schools of Music*) wedi canfod fod canran y disgyblion sy'n chwarae recordydd wedi gostwng o 52% ym 1997 i 28% yn 2014 a 15% yn 2020. Cynyddodd y defnydd o'r iwcaleli dros yr un cyfnod o 1% i 11.5%.

Mae hefyd fand Iwcalilis Caerfyrddin yn ein tref sy'n cynnal digwyddiadau ac yn codi arian at achosion da.



Wel, mae gan bawb ddiddordebau gwahanol, wrth gwrs, ac un hobi mae Dennis Jones, Ysgrifennydd Cynllun Cyfamodi'r Priordy, yn ei ffafrio'r dyddiau hyn yw chwarae'r iwcaleli. A dyma holi Dennis am hyn:

PP: Yn sylwi bod ambell un yn cynnig hyfforddiant ar yr iwcaleli ar y we. Wyt ti wedi cael gwersi o gwbl?

DJ: Wel, ddim ar y we. Dw i'n ffodus iawn i gael gwersi bob

wythnos gan John James sy'n adnabyddus yn y fro fel cerddor a hefyd am y siop gerdd a'r ganolfan pianos yn y dre. Dw i ddim ond wedi bod wrthi ers deunaw mis ond gan fy mod yn gallu chwarae'r gitâr ers hanner canrif mae'r iwcaleli wedi bod yn haws i'w ddysgu.



PP: Tybed beth yw'r caneuon gorau i'w chwarae ar yr iwcaleli?

DJ: *Dw i'n hoff iawn o ganeuon gwerin fel Moliannwn ac amrywiaeth o ganeuon erall fel fel Gall dwy law, Murmur yn y gwynt, Lleucu Llwyd a Calon Lân. Mae'r repertoire yn cynyddu.*

PP: Ydy'r iwcaleli'n offeryn drud i'w brynu?

DJ: *Ddim mewn gwirionedd. Mae'r prisiau'n amrywio a gallwch ddod o hyd i un da am tua £40. Mae'r prisiau'n codi wedyn gan ddibynnu ar yr ansawdd. Bues i yn lwcus i gael un fel anrheg pen-blwydd.*

PP: Elli di sôn am ambell berson adnabyddus neu enwog sydd wedi troi at yr iwcaleli?



DJ: *Yr un sy'n dod i'r meddwl yw George Formby (1904-61), y gŵr o Wigan, a hynny am un gân yn arbennig sef "I'm leaning on the lamppost."*

PP: Wel, ryn ni'n deall bod person arall sy'n adnabyddus i ni i gyd yn y Priordy wrthi'n ymarfer yn galed ar yr iwcaleli'r dyddiau hyn?!

DJ: *Chi'n iawn. Rydw i'n cael y*

frait o fynd i'r dosbarthiadau iwcaleli gyda Sulwyn Thomas gan iddo ofyn i fi ymuno ag e a'i ffrindiau. Efallai ei fod yn edifar erbyn hyn cofiwch!!! Eraill yn y grwp yw John James, ei hunan, ei wraig Luned a Mansel Thomas, Mynydd-y-garreg.



PP: Dwed wrthon ni'n dawel bach sut hwyl mae e'n ei gael!

DJ: Mae Sulwyn wrth ei fodd yn chwarae'r iwcaleli ac yn frwdfrydig dros ben, a hyd yn oed wedi symud ymlaen i chwarae y "bass iwcelesi". Efallai rhyw ddiwrnod fydd Sulwyn yn datblygu i fod yn George Formby Cymru!!!!

PP: Wel, oes unrhyw nod gennych?

DJ: Gobeitho y byddwn ni yn gallu chwarae a diddanu ychydig mewn cartrefi henoed ryw ddydd pan fydd y pandemig wedi cilio. A dweud y gwir, rydyn ni erbyn hyn wedi perfformio'n fyw am y tro cyntaf – yng Ngwesty'r Falcon mewn cinio a drefnwyd i fynegi'n diolch i Sulwyn Thomas am ei waith mawr fel Cadeirydd Llyfrau Llafar Cymru dros flynyddoedd maith. Ond y peth pwysicaf i ni, wrth gwrs, ydi dod at ein gilydd a chael hwyl yn chwarae.

Diolch i ti Dennis, a gobeithio y bydd cyfle i ni hefyd glywed deuawd ar yr iwcaleli yn y Priorddy cyn bo hir iawn!



Llun: Y perfformiad cyhoeddus cyntaf!

ANRHYDEDDU SULWYN



Y gwesteion yn y cinio i ddiolch i Sulwyn am arwain Llyfrau Llafar Cymru
am un mlynedd ar ddeg,

O'r chwith i'r dde Emlyn Schiavone (cadeirydd newydd), Llŷr James
(cyfrifydd Llyfrau Llafar Cymru), Sulwyn Thomas, Tudur Dylan Jones
(lluniwr englyn o deyrnged i Sulwyn), Rhian Evans, Mrs Linda Williams
(Cyfarwyddwr Llyfrau Llafar Cymru) a gyflwynodd dusw o flodau i Mrs
Glenys Thomas a'r Parchg. Wynn Vittle, (ysgrifennydd pwyllgor Llyfrau
Llafar Cymru).

A dyma englyn Dylan

Daliodd hyd ben y dalar – dal i roi,
Dal â'r wen gyfeillgar;
Gwelwn werth y galon wâr
Fynn roi llwyfan i'r llafar.

CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY

Nos Fercher 9 Mawrth 2022 am 7 yn y capel

CWRDD DIACONIAID A BAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR YR OFALAETH

Nos Fercher 23 Mawrth 2022 am 7 yng Nghana

ARDDANGOSFA ARBENNIG

Mae Walford Davies, sef tad ein Gweinidog, wedi ymddiddori mewn paentio erioed. Mae Beti-Wyn yn cofio arogli'r paent olew ac acrylig yn y tŷ pan oedd yn blentyn. Dros y degawdau diwethaf, fodd bynnag, mae'i thad wedi troi'n fwy at luniau dyfrlliw.

Mae'n amlwg fod elfen greadigol yn y teulu! Ar un o waliau cartref ein Gweinidog yn Abergwili, mae darlun o waith ei hen fam-gu (ar ochr ei thad). Cwblhaodd ei thad wedyn gwrs Lefel A mewn Celf, ac mae Beti-Wyn a'r merched, Elin a Sara, wedi gwneud Lefel O / TGAU mewn Celf. Ar ben hynny aeth Beti-Wyn a Sara ymlaen i wneud Lefel A mewn Celf. Mae Sara wedi mynd gam ymhellach eto ac mae'n dilyn cwrs gradd mewn Celf yng Ngholeg Celf Caerfyrddin.

Mae paentio wedi bod yn therapi da i Walford ers iddo golli'i briod, yn enwedig dros y cyfnod clo. Does fawr o gymdeithasu wedi digwydd yn ddiweddar yn Nhŷ Rhys, ble mae Walford yn byw, oherwydd Covid. Serch hynny, penderfynodd Walford gynnal arddangosfa o'i waith yn yr Ystafell Gymunedol yn Nhŷ Rhys ar brynhawn Dydd Mercher, 16 Chwefror 2022. Bu'n llwyddiant mawr. Daeth nifer fawr o'r trigolion ynghyd a chafwyd prynhawn hyfryd o gymdeithasu a phawb yn cymryd diddordeb mawr yn y gwaith.

Y gobaith mawr yw cynnal digwyddiad tebyg arall yn fuan gyda'r bwriad o wahodd ffrindiau o'r tu allan pan fydd yr amgylchiadau a rheoliadau Covid yn caniatáu.

ARDDERCHOG . Edrychwn ymlaen yn fawr at weld y casgliad!



Tudalen Blaen

Rheswm Dewi Snelson dros ddewis y geiriau sydd ar fathodyn Clwb Pêl-droed Everton.....

Nil Satis Nisi Optimum

Dyma'r unig eiriau Lladin rwy'n eu gwybod a hynny am un rheswm pwysig iawn i mi sef Clwb Pêl-droed Everton.

Dyma'r geiriau sydd ar fathodyn y clwb. Beth mae 'Nil Satis Nisi Optimum' yn ei olygu meddech chi? Wel 'Dim ond y gorau sydd yn ddigon da' ydy'r cyfieithiad llythrennol.



I unrhyw un sydd wedi dilyn Everton dros y blynyddoedd diwethaf mae'r clwb wedi gweld pethau'n reit

anodd o ran canlyniadau ar y cae. Yng nghyd-destun Everton a pêl-droed, mae nifer yn dehongli'r geiriau fel mai dim ond ennill pob gêm, cwpanau, pencampwriaethau ac yn y blaen sydd yn ddigon da. Drwy beidio â gwneud hynny'n rheolaidd mi fyddai'r mwyafrif o gefnogwyr yn honni nad ydy Everton wedi llwyddo i ddilyn yr hyn sydd ar y bathodyn. Ond mae'n well gen i ddehongli'r geiriau mewn ffordd arall. Nid trwy ennill cwpanau a phencampwriaethau yn unig mae mesur llwyddiant ond mewn ymdrech ac ymddygiad.



Yn 1988 fe sefydlodd y clwb elusen o'r enw '*Everton in the community*'. Yn y flwyddyn ddiwethaf mae'r elusen wedi cynnal bron i 10,000 o sesiynau hyfforddiant ac addysg gan weithio gyda bron i 150,000 o bobl ddifreintiedig. Felly er nad ydyn nhw mor llwyddiannus ar y cae, maen nhw'n llwyddo i helpu i. newid bywydau pobl oddi ar y cae.

Mewn ffordd, mae angen newid yr hyn sydd ar y bathodyn er mwyn dweud '***Dim ond gwneud eich gorau sydd yn ddigon da***', a chofio mai nid ennill sy'n bwysig bob tro.

Lluniau

Bathodyn Everton.

Osian, Gwilym a Caleb yng ngêm ddiweddar Everton yn erbyn Brentford.

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Tim Hayes, Angharad Wyn, Jayne Woods, Tudur Dylan Jones ac Iris Owen am y lluniau'r mis hwn.



Casglwyd £102.70 at Goleg yr Annibynwr Cymraeg. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon

PEN-BLWYDD HAPUS!



Eirlys Jones yn derbyn rhodd gan ein Gweinidog ar ran y Priordy ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn 90 oed.

Ifanc@Priordy

TAITH GERDDED YN EIN WELIS!

Diolch i bawb a ddaeth ar ein wâc. Cafwyd prynhawn hyrfurd yn crwydro Parc yr Esgob, Abergwili, a phawb wedi dod o hyd i bob eitem a oedd ar restr Beti-Wyn - o gelyn o garreg, o ddeilen frown i rhedyn. Da iawn chi. Roedd yn hyfryd treulio amser yn eich cwmni. Roedd y sudd a'r bisgedi yn ddigon derbyniol hefyd. Llundiau mewn man arall ym Mhapur Priordy.



DEWI SANT

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i'r gwasanaeth Gŵyl Dewi ar Chwefror 27. Cawsom lawer o hwyl wrth addoli. Digon o luniau i'w gweld ar dudalennau'r papur hwn.



PODLEDIADAU

Diolch i bawb o PIP a ddaeth i'r gweithdy Podlediadau a drefnwyd gan y Fenter. Edrychwn ymlaen at ddechrau darlledu yn fuan! Mae adroddiad llawn ar dudalen arall yn y papur.

Adnod i'w chofio...

'Gadewch i'r plant ddod ata i... peidiwch eu rhwystro...' Marc 10:14 beibl.net

CHWILOTAIR

P	G	K	J	B	K	V	C	E	R	N	Y	W	A	C	F	Z	B
A	Z	D	A	T	H	L	U	P	U	P	M	S	A	N	T	O	A
U	V	A	L	L	A	N	D	D	E	W	I	B	R	E	F	I	C
L	M	T	I	R	Y	N	C	O	D	I	H	S	F	R	R	T	D
I	M	A	W	R	T	H	U	Z	O	I	A	C	H	A	U	U	Y
N	T	E	I	T	H	I	O	E	S	K	S	D	V	K	A	Y	F
W	T	V	G	L	Y	N	R	H	O	S	Y	N	Y	Y	M	I	N
S	Q	M	Y	N	A	C	H	L	O	G	Y	D	D	S	Y	G	A
B	B	T	Z	S	B	X	J	D	E	W	I	N	O	N	G	D	I
J	F	B	E	I	B	L	P	R	E	G	E	T	H	U	F	U	N
X	S	G	E	I	C	L	O	C	H	T	Y	D	D	E	W	I	T
C	Y	N	T	A	F	H	C	U	A	E	L	G	K	P	J	N	S

LLANDEWIBREFI
MYNACHLOGYDD
GLYN RHOSYN
TIR YN CODI
PREGETHU
PAULINWS
DYFNAINT

TYDDEWI
TEITHIO
CERNYW
DATHLU
IACHAU
MAWRTH
CYNTAF

CLOCH
BEIBL
DYSGU
SANT
DEWI
NON

Sul Y Mamau

Byddwn yn cynnal Cwrdd Teulu ar 27 Mawrth!
Cofiwch ddod!

Hwyl am y tro
Beti Wyn



GWENAN A'I GWOBR



Llongyfarchwyd Gwenan yn ein rhifyn diwethaf am ennill cystadleuaeth yn y cylchgrawn Cristion (Rhifyn 229), sef creu cerdyn Nadolig Cristnogol. A dyma hi yn yn y llun hwn gyda'i gwobr.

Elinor Wyn Reynolds....

Gwasanaeth Gŵyl Ddewi'r Priordy 2022

Wel am fore braf! Roedd yr haul yn gwenu arnom, yr awyr yn las a'r hwyliau'n dda. Dyma ni'n cychwyn ar ein dathliadau Gŵyl Ddewi yn y Priordy gyda gwasanaeth i ddathlu bywyd ein nawddsant gyda help rhai o deuluoedd y Priordy.



Cychwynnwyd ar y gwasanaeth yn ardderchog gydag Elliw a Mwynwen Jones yn darllen Salm 95, 'Dewch, gadewch i ni ganu'n llawen i'r Arglwydd a gweiddi mawl iddo!' Yna, ymunodd pawb i ganu emyn 831 sef emyn Rhys Nicholas sy'n ein hannog i garu Cymru, cyddyn a Christ, yn union fel yr anogodd Dewi Sant ni i wneud, dyma hefyd yw arwyddair yr Urdd.

Y nesaf i'r pulpud oedd Greta ac Angharad Wyn i sôn mewn lleisiau clir am Ddewi Sant, gan ofyn sawl Dewi ydyn ni'n eu hadnabod. Ac ar ffilm fer fe welsom ni wyneb sawl Dewi enwog, o Pws i Llwyd, a chan gynnwys ein Dewi ni, sef Dewi Snelson. Bydd plantos yn gwisgo eu gwisgoedd Cymreig ac yn gorymdeithio drwy'r dref ar Ddydd Gŵyl Ddewi a soniodd Greta ac Angharad ein bod ni'n gwisgo cennin neu gennin Pedr ar Ddydd Gŵyl Ddewi er mwyn cofio am Dewi, am ei fywyd ac am yr hyn ddysgodd i ni. Yn wir, anogodd Angharad ni gyd i wisgo cenhinen Bedr ar ddydd ein nawddsant, gan wisgo het genhinen Bedr anferthol am ei phen. Ymunodd pawb i ganu'r gân ysgafn 'Gwisg dy genhinen Bedr'.

Trodd y pulpud yn stiwdio deledu o flaen ein llygaid pan ddaeth Gwydion a Llinos Williams i ddarllen y newyddion. Os bydd Llinos byth yn penderfynu rhoi'r gorau i fod yn feddyg, dwi'n siŵr y byddai hi'n ddarlledwraig newyddion tan gamp, croesawodd ni i rifyn arbennig o'r

newyddion o'r Priordy oedd yn adrodd am farwolaeth Dewi Sant ar 1 Mawrth gannoedd o flynyddoedd yn ôl. Rhoddodd Llinos grynodedb byr o'i fywyd cyn mynd draw i Landdewibrefi at Gwydion 'gohebydd' Williams oedd yno i'n hatgoffa ni am rywbeth go arbennig a ddigwyddodd yn Landdewibrefi, cafwyd cyfweiliad ar ffilm gan lygad-dyst (oedd yn edrych yn rhyfeddol o debyg i Beti-Wyn) a welodd Dewi Sant yn pregethu i dorf helaeth oedd yno. Roedd nifer yn methu gweld ac felly, rhoddodd Dewi hances ar y ddaear a sefyll arno, yna fe gododd y ddaear o dan ei draed gan greu bryn, yna fe allai pawb weld. Adroddodd Gwydion y gohebydd fwy am y gwyrthiau a wnaeth Dewi cyn trosglwyddo yn ôl i'r stiwdio at Llinos er mwyn dod â'r newyddion i ben gyda'r shyfflo papur cyfarwydd.

Tro Ifan a Cadi Morgans, gyda help eu mam Carys, oedd hi wedyn i siarad mwy am fywyd Dewi a'r ffordd syml yr oedd yn byw a'r hyn yr oedd yn ein hannog ni i'w wneud yn ein bywydau ninnau sef caru Duw a charu'n gilydd ac i wneud y pethau bychain fyddai'n gwneud gwahaniaeth mewn bywyd i ni ac i eraill; gweddïo, addoli, helpu, cysuro a gwenu. Mae'r cyfan hyn yn medru gwneud gwahaniaeth. Gwnaeth Cadi ac Ifan eu gwaith yn raenus.

Daeth Nel a Llinos Jones i'r pulpud wedyn i roi geiriau'r emyn nesaf yn hyderus, sef rhif 562 'Geiriau Dewi Sant'. Yna arweiniodd Llinos ni mewn gweddi o ddiolch am yr hyn sydd gennym fel Cymry, gwlad, iaith a chenedl. Ymunodd pawb i adrodd Gweddi'r Arglwydd.

Cafodd y Band Taro ei owting cyntaf ers cyn y pandemig. Roedd rhai'n ymuno am y tro cyntaf, ac yn wir, chafon ni mo'n siomi gan eu hafiaith a'u sŵn yn ystod yr emyn 401 'Mae 'nghalon mor llon'. Cafodd pob un ohonom ein llonni gan y miri.

Daeth Beti-Wyn i siarad â'r plant am ein traddodiad ni o wisgo gwisg Gymreig, fe soniodd am bethau sy'n cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth ac sy'n cael eu trysori. Dangosodd dair gwisg Gymreig i ni, un ei merched, eu hun hi ac yna'r wisg yr oedd ei mam hi'n ei gwisgo, cyn dangos y trysor pennaf, sef siôl ei hen hen fam-gu a wisgwyd ganddi ar ddydd ei phriodas dros gant a hanner o flynyddoedd ynghynt. Ni yw'r bobl sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd, dylem ni ei thrysori a thrysori'n treftadaeth, ein hiaith a'n hanes hefyd. Mi ydyn i, wrth gwrs, ond dydy e ddim yn gwneud dim drwg i gael ei hatgoffa o hynny bob nawr ac yn y

man, mae'n hollol iawn ein bod ni'n dangos balchder yn ein gwlad, ein hiaith a'n hanes, wedi'r cyfan dyna sy'n ein gwneud ni yn pwy ydym ni.

Canwyd yr emyn olaf, rhif 228 'Air Disglair Duw' ag afiaith. Cyhoeddodd Beti-Wyn y fendith a'n rhyddhau ni i fwynhau diwrnod hyfryd o wanwyn.





GOLYGFA ANNISGWYL O GALERI'R PRIORDY

OHERWYDD cyfyngiadau Cofid a rheolau pellhau o fewn adeiladau rwyf wedi bod yn eistedd yn ddiweddar yn y sedd gefn uchaf ar galeri Capel Y Priordy yn ystod ein

gwasanaethau. Un bore Sul, i gyfeiliant yr organ, a chyn dechrau'r gwasanaeth, dyma edrych allan trwy ffenestri llofft y capel sydd ar y chwith, a fedrwn i ddim llai na rhyfeddu at yr olygfa hardd o Ddyffryn Tywi, ac ar y gorwel pell medrwn weld y Mynydd Du yn glir.



Y Mynydd Du – llifodd yr atgofion yn ôl am gân boblogaidd 'Bois y Blacbord' – 'Dros y Mynydd Du o Frynman...' o dan arweiniad yr anfarwol Noel John. A mwy nag unwaith gynt, wrth i mi alw i weld Norah Isaac yn ei chartref yn Llwybrau, Heol Pentremeurig

mynnai hithau fy mod yn sefyll ar garreg ei drws ffrynt i weld gogoniant Dyffryn Tywi a'r Mynydd Du yn y pellter.

Yn syth wrth y capel gwelwn olion Priordy Ieuan Efengylwr a Theulyddog lle'r ysgrifennwyd 'Llyfr



Du

Caerfyrddin' yng nghanol y 13eg ganrif, ac un o'r llawysgrifau hynaf sydd wedi goroesi ac a ysgrifennwyd ar femrwn. Mae hon yn un o drysorau ein llenyddiaeth ac yn cael ei chadw yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth.

Yn ymyl mae Parc Hinds sy'n gae bychan agored gydag offer chwarae i blant yn y gornel bellaf. John Hinds yr Aelod Seneddol dros



Gaerfyrddin yn 1918 a 1922 roddodd y darn hwn o dir i'r dref. Yn syth wedyn, ble mae Jewsons erbyn hyn, roedd gwaith Tun a Haearn enwog teulu'r Morganiaiad o 1748 tan 1900. Dyma oedd prif ddiwydiant y dref ac yn dylanwadu'n fawr yn economaidd. Cartref y teulu oedd *Furnace House* – lle mae Llyfrgell y dref yn awr. Sefydlodd John Morgan ei *Furnace Bank* ym 1792 gan fathu arian a thocynnau. Dyma sut y byddai'n talu ei weithwyr a rheini wedyn yn gorfod defnyddio'r arian hyn i brynu nwyddau yn siopau John Morgan yn y dref!



Wrth godi'ch golygon fe welwch trwy'r ffenestri fryn uchel ar draws yr afon Tywi. Yma mae Eglwys Llangynnwr ac ychydig i'r dde o brif ddrws yr eglwys honno mae bedd yr emynydd David Charles ac awdur 'O Fryniau Caersalem...' a 'Rhagluniaeth Fawr y Nef...'. Ym 1988, fe drefnwyd digwyddiad i osod cofeb newydd ar y garreg fedd honno, ac mae Cymdeithas Ddinesig Caerfyrddin wedi gosod plac glas ar y tŷ nesaf at Fanc Nat West yn y dref i nodi mai 60 Heol y Brenin oedd cartref David Charles.



O edrych wedyn i fyny'r dyffryn fe welwn ddolydd braf Plas a Pharc yr Esgob yn Abergwili. Yma yn 1567 yr aeth yr Esgob Richard Davies a'r ysgolhaig William Salesbury ati i gyfieithu'r Testament Newydd a'r Llyfr Gweddi Cyffredin i'r Gymraeg. Ym Mhlas yr Esgob heddiw mae'r Amgueddfa Sirol ac mae'r gwaith o adnewyddu'r to a'r holl adeilad yn cael ei orffen ar hyn o bryd fel 'y cedwir i'r oesoedd a ddél y glendid a fu'. Yn y cyfamser mae Ymddiriedolaeth Dyffryn Tywi wedi adfywio'r holl dir o gwmpas yr amgueddfa a throi rhai adeiladau'n llefydd cymfdeithasol




gyda chaffi hefyd i gael paned a sgwrs. Cofiwch alw heibio'r haf hwn.

Ni allwn anghofio bod yr afon Tywi yn llifo'n hamddenol trwy'r dyffryn hefyd. Hi yw'r afon hiraf sy'n llifo'n gyfan gwbl yng Gymru a'r llanw o'r môr yn cyrraedd hyd at Abergwili. Dyma afon a fu unwaith yn fyd enwog am bysgota'i eogiaid ac mae'r hen draddodiad o gwryglau ar yr afon yn dal o hyd,



PWY feddyliai fod yr olygfa o galeri Capel y Priordy yng Nghaerfyrddin yn un mor hardd ac mor nodedig yn hanesyddol?! Ond, mae'r ychydig sylwadau hyn yn profi hynny.



TE P'NAWN!



AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

**CYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN
CWRDD CHWARTER - DYDD IAU, 10 MAWRTH 2022**

**Cynhadledd Wyneb yn Wyneb
Capel Ebenezer, Abergwili am 10.30
Trosglwyddo'r Gadeiryddiaeth a'r Beibl i'r
Cadeirydd Newydd, Y Parchedig Tom Evans**

**Cyfarfod Rhithiol gyda'r Hwyr
dros Zoom am 7**

Y Pwnc dan Sylw – Dementia

Siaradwyr Gwadd

Y Cynghorydd Sirol Emlyn Schiavone

**Aelod o Bwyllgor sy'n ymwneud â Strategaeth Dementia
yng Nghaerfyrddin
*Y Persbectif Lleol***

Emlyn Davies

Cadeirydd Adran Ddinasyddiaeth Gristnogol

Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Heulwen Dan Gymylau: Tyfu'n Eglwys Ddementia-Gyfeillgar

TE P'NAWN



PENWYTHNOS PRYSUR!

WÂC YN EIN WELIS!

Daeth nifer o deuluoedd yr Ofalaeth ynghyd ar bnawn Sadwrn 26 Chwefror ar gyfer taith gerdded hyfryd yn eu welis o amgylch Parc yr Esgob, Abergwili. Trefnwyd 'scavenger hunt' iddynt gan Beti-Wyn a chyflwynwyd neges syml i'r plant yn ystod y prynhawn yn seiliedig ar yr eitemau a gasglwyd ganddynt. Cafwyd cyfle am ddiod oer a bisegi cyn i'r plant a'r oedolion fwynhau gornest ddringo gyda chymorth rhaffau! Prynawn hwylus a hwyliog. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi

TE GŴYL DEWI

Mwynhawyd Te Prynawn yng Ngwesty'r LLwyn Iorwg ar bnawn Sul 27 Chwefror i dathlu Gŵyl ein Nawddsant. Dyma fenter newydd a brofodd yn llwyddiannus iawn gyda'r stafell fach yn llawn, a'r cwmni'n un hwyliog iawn. Heriwyd pawb i orffen limrig a bu'r cystadlu mor frwd a'r safon mor uchel fel y penderfynwyd nad oedd modd dewis buddugol - roedd pob un yn haeddu'r goron! Cafwyd llawer o hwyl yn ceisio ateb y cwestiynau amrywiol a osodwyd gan Beti Wyn mewn cwis. Roedd y cwestiynau'n amrywio o rai cyffredinol i rai cerddorol, o fydd y ffilm i gestyll. Bu'r ymateb i'r prynawn ar ei hyd yn ardderchog. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

Gweler y lluniau ar dudalennau eraill

 DATHLU'R PASG 	
Y TABERNACL, CAERFYRDDIN	
NOS IAU CABLYD 14 Ebrill 2022 7.00pm OEDFA GYMUN Y PARCHEDIG DDOETHUR DESMOND DAVIES Caerfyrddin	DYDD GWENER Y GROGLITH 15 Ebrill 2022 10.30am OEDFA BREGETHU Y PARCHEDIG ROB NICHOLLS Eglwys Gymraeg Canol Llundain

Taith Gerdded yr Ysgol Sul ar Lwybrau Tir

Palas yr Esgob, Abergwili





NEWYDDION SALEM CAERNARFON

SUL CYMDEITHAS

Dan adain Cyngor Eglwysi'r dref cynhelir oedfa undebol ar y trydydd Sul o Chwefror bob blwyddyn a'i alw'n Sul Cymdeithas. Eleni, y siaradwraig wadd oedd Siân Elen Thomas, prif weithredwr, Gisda, Mae GISDA yn gorff sy'n cael ei arwain gan bobl sy'n gwerthfawrogi ei staff, ei ymddiriedolwyr a'i randdeiliaid ac maen nhw'n credu mai pobl yw caffaeliad gorau pob sefydliad. Holwyd Siân gan Mererid Mair. Cynhaliwyd y cyfarfod ar Zoom. Am fwy o fanylion am Gisda ewch i www.gisda.org

GRAWYS

Thema cyfarfodydd y Grawys eleni fydd 'DILYN CRIST YN ÔL TRAE'D Y SAINT' dan gyfarwyddyd hanes y Santes Gwenffrewi. Cytûn sy'n gyfrifol am y deunydd.

YSGOL SUL SALEM

Ar y Sul cyntaf ym mis Mawrth byddwn yn cynnal yr Ysgol Sul yn y festri am y tro cyntaf ers dechrau'r Pandemig ar ôl bron i ddwy flynedd o'i chynnal ar Zoom. Wedi'r Pasg gobeithir dod i'r capel gan ddechrau cymysgu gyda'r oedolion. Mae pawb yn edrych ymlaen yn fawr iawn.

Grawys 2022

Dilyn Crist yn ôl traed y Saint

Dan gyfarwyddyd hanes y Santes Gwenffrewi



Papur Priordy yn cofio...

MICHAEL DANIEL JONES

ar achlysur deucan mlwyddiant ei eni

Ganed **Michael D Jones** yn Nhŷ'r Hen Gapel yn Llanuwchllyn ar 2 Mawrth 1822 yn fab i'r Parchedig Michael Jones a'i briod Mary Hughes. Fe'i codwyd mewn cyfnod cythryblus yn hanes Ymneilltuaeth. Daeth




Michael Jones, y tad, i Lanwchllyn

fel gweinidog yr Hen Gapel ac roedd yn cadw ysgol yn ei dŷ. Roedd y cyfnod hwn yn fwrllwm o ddadleuon diwinyddol a threfniadol ymysg Ymneilltuwyr Cymru. Bu rhwyg yn yr Hen Gapel a arweiniodd at Michael Jones a'i gefnogwyr yn gadael cyn iddynt

ddychwelyd tua deng mlynedd yn ddiweddarach ym 1839 pan unwyd yr eglwys unwaith eto. Symudodd Michael Jones i'r Bala yn 1842 i ofalu am ysgol newydd a ddaeth i'w hadnabod fel Athrofa'r Annibynwyr ar gyfer addysgu dynion ifanc i'r weinidogaeth.

Derbyniodd ei addysg gynnar gan ei dad ar yr aelwyd. Aeth wedyn i weithio fel prentis o ddilledydd i siop yn Wrecsam ond byr iawn fu ei arhosiad yno. Ym 1839, aeth i Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin i baratoi ar gyfer y weinidogaeth, ac ar ôl pedair blynedd, i Goleg Highbury Llundain.

Ymwelodd ag America yn 1848 i astudio gwerinlywodraeth, caethwasanaeth a phrofiadau'r Cymry oedd wedi ymgartrefu yno. Dyma gyfnod yr ymfudo mawr o Gymru i America oherwydd gormes y meistri trir a'r cyni amaethyddol enbyd rhwng 1840 a 1850. Aeth i ganol perthnasau a chydnabod i Cincinnati, Ohio – pobl o'r Bala, Llanuwchllyn a Llanbrynmair. Roedd ei chwaer hynaf wedi byw yn y dalaith hon er 1830au, Cafodd ei urddo'n weinidog ar eglwys



Gymraeg Lawrence Street yn Cininnati ym 1848. Chwaraeodd ran amlwg yn ffurfio cymdeithas yno, sef Cymdeithas y Brython i gynorthwyo ymfudwyr o Gymru. Ymledodd gwahanol ganghennau 'r Gymdeithas i wahanol rannau o America,

Dychwelodd i Gymru ac ymsefydlu yn 1850 yn weinidog Bwlchnewydd a Gibeon, Sir Gâr. Michael Jones y tad oedd prifathro cyntaf Coleg yr Annibynwyr yn Y Bala a phan fu yntau farw ym 1853 penodwyd y mab yn olynydd iddo ynghyd â bod yn weinidog yn Y Bala. Bu yn y swydd honno nes ymddeol ym 1892. Bu farw ym Modiwan, ei gartref ar gyrion Y Bala, ar 2 Rhagfyr 1898



a'i gladdu ym mynwent yr Hen Gapel. Ni fu'i gyfnod yn y coleg yn un dedwydd iawn iddo yntau fel ei dad o'i flaen! Bu helynt mawr' yn ymwneud â llywodraethu'r coleg a checru personol. O ganlyniad, gwelwyd dau goleg yn y Bala! Ymhen tipyn symudwyd un coleg i Fangor a'r diwedd fu i'r ddau gael eu huno yn y lle hwnnw a chael ei adnabod wrth yr enw Coleg Bala-Bangor.



Roedd Michael D Jones yn ddyn cadarn iawn - un a oedd yn casau uwchben popeth arall waseidd-dra a Sais-addoliaeth y Cymry ac unrhyw arwydd o ddiffyg annibyniaeth a hunan-barch. Roedd yn Annibynnwr cadarn ei egwyddorion ac yn gwbl ddigymrodedd.

Fel Radical Cymreig, credai'n ddiysgog mewn rhyddid, rhyddid i werin a rhyddid i genedl.

Ei greadigaeth fawr oedd y Wladfa a'i bwrpas, fel y dywed Gwynfor Evans yn *Aros Mae*, oedd gosod Cymru rydd ar ddaear Patagonia. Yn ystod ei gyfnod yn yr Unol Daleithiau gwelai'r Cymry a oedd yn ymfudo yno yn brwydro'n aflwyddiannus i ddiolgelu'r iaith a'r diwylliant Cymreig yn eu cymunedau.

Gwelai hefyd y Saesneg yn lladd y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru. Yr unig ateb, yn ei farn e, oedd sefydlu cymuned neu wladfa Gymreig y tu hwnt i ddylanwad y Saesneg. A Patagonia a ddewiswyd ar gyfer hynny.

Mae Dr Dafydd Tudur yn esbonio fel y bu i Michael D Jones ystyried mannau eraill i sefydlu gwladfa ond unwaith yr aeth y syniadau am y mannau hynny i'r gwellt, ymdaflodd i'r gwaith o sicrhau bod



Patagonia'n llwyddiant. Mae'n ychwanegu iddo wneud ei gyfraniad pwysicaf yn y misoedd cyn ymadawiad y fintai gyntaf yn llogi llong ac yn y blaen a buddsoddi llawer o arian personol pan aeth pethau o chwith gyda'r llong wreiddiol. Bu'n ffodus, mae'n debyg, i briodi gwraig ariannog! Cafodd yr ymrwymiad ariannol gryn effaith ar Michael D Jones, fodd bynnag. Gydag amser aeth y gwariant hwn yn drech nag e, a chafodd effaith andwyol ar ei berthynas â'r Wladfa ac ar ei waith fel Prifathro Coleg yr Annibynwyr yn Y Bala

Pedwar mis yn unig a dreuliodd ym Mhatagonia, mae'n wir, ac ni theithiodd yno gyda'r finati gyntaf. Serch hynny, gymaint oedd ei ymroddiad i'r anturiaeth nes iddo gael ei gyfarch ar ddiwedd ei oes gan **Lewis Jones (1836-1904)**, un o brif arweinwyr y Mudiad Gwladfaol. fel 'Tad y Wladfa'. Mae Dafydd Tudur yn dod i'r casgliad canlynol: *'Oni bai am benderfyniad ac ymroddiad Michael D Jones ni fyddai'r Mimosa wedi gadael dociau Lerpwl ym mis Mai 1865 gydag arloeswyr y wladfa Gymreig ar ei bwrdd.'*



Disgrifir Michael D Jones gan D Gwenallt Jones fel *'Cymro pennaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg; y cenedlaetholwr mwyaf ar ôl Owain Glyndŵr.'*

TE P'NAWN



Podlediadau



YMUNODD rhai o bobl ifanc yr Ofalaeth mewn sesiwn hofforddi podlediadau dros Zoom ar nos Fercher, 16 Chwefror 2022 a drefnwyd rhyngom a Menter Gorllewin Sir Gâr.

Beth yw Podlediad fe glywa i chi'n gofyn?! Sgwrs ar unrhyw bwnc sy'n cyrraedd llwyfannau digidol. Mae nifer fawr o bobl enwog yn sgwrsio drwy gyfrwng podlediadau, a gwych o beth yw y bydd yr Ofalaeth yn ymuno â nhw cyn bo hir!

Bu'r criw iau'n trafod syniadau ynghylch sut y gallent weu gwaith yr eglwys i mewn i fyd y podlediadau a chafwyd sawl syniad ardderchog ganddynt. Byddant yn gweithio ar eu syniadau dros yr wythnosau nesaf, yn recordio, golygu ac yna'n trosgwyddo'u gwaith i'r Fenter er



mwyn i'r recordiadau gael rhoi llwyfan iddynt drwy SPREAKER a chreu rhestr chwarae (playlist) ar gyfer eglwysi'r Ofalaeth. Bydd angen llunio logo hefyd.

Cafwyd cyfarwyddyd manwl, a llawer o awgrymiadau gan Ceris ar ran y Fenter ee. pa offer sydd orau, ble mae'r lle gorau i recordio a sut i olygu.

Os oes rhai o'r bobl ifanc na lwyddodd i gyrraedd y sesiwn hyfforddi'n awyddus i ymuno yn y prosiect, cofiwch gysylltu ac fe ddwedwn wrthyhych beth sydd angen i chi ei wneud.

Wel, am ychwanegiad cyffrous i'n prosiect digidol!.

BYDDWN mewn cyswllt â chi i gyd yn fuan ar ôl i'n podlediadau cyntaf gael eu cyhoeddi gyda chyfarwyddiadau ynghylch sut i wrando arnynt!

Beti-Wyn



DYLETSWYDDAU

GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS



Mawrth		Ebrill	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Emlyn Schiavonell	Huw Jones	Catrin Heledd Jones	Huw Michael

DARLLENWYR

Mawrth	6	Carys Morgans	Ebrill	3	Philip Jones
	13	Elis Jones		10	Yr Aelodau
	20	Gill Owens		17	Jayne Woods
<i>Sul y Mamau</i>	27	Y Mamau		24	Miriam Wyrwoll

CYHOEDDWYR

Mawrth	Elinor W Reynolds	Ebrill	Jayne Woods
--------	-------------------	--------	-------------

COLEG YR ANNIBYNWYR CYMRAEG - CYRSIAU'R GWANWYN

Darllen, Deall a Dehongli Gair Duw Heddiw
Astudio'r Beibl yn ein Cyd-destun ni

Nos Lun, 7 Mawrth 2022
Testament Newydd y Beibl
Catrin Haf Williams

Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Dirnad a Datblygu Doniau yn ein Heglwyysi

Nos Lun, 14 Mawrth 2022 - 7
Beti-Wyn James
Caerfyrddin

Nos Fawrth, 22 Mawrth 2022 - 7
Alun Tudur
Caerdydd

Cwrs Dehongli'r Ysgrythurau
Yr Actau a'r Epistolau - Nosweithiau Mercher gan ddechrau 16 Chwefror 2022 -
Aled Jones Cyfarwyddwr a Chydlynnydd Hyfforddi'r Coleg
Croeso cynnes iawn i bawb Bydd pob cwrs ar-lein eleni
Manylion pellach a dolenni Zoom oddi wrth
aled@colegyrannibynwyr.cymru



DYMUNWN yn dda i bawb sy'n anhwylyd y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phob un sy'n gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddylw'n yn arbennig am Malcolm Jones, un o gyfeillion ein hachos, a Gwynfor Davies ac Eira Jenlins. Ein cofion annwyl atoch i gyd.

Mae ymgyrch i annog mwy o bobl i ddod yn athrawon, yn enwedig athrawon cyfrwng Cymraeg, wedi cael ei lansio gan Lywodraeth Cymru. Mae prosiect '**Caru Dysgu**' yn adrodd straeon 21 o athrawon sydd wedi llwyddo i gyfuno eu gyrfaedd â'u diddordebau neu brofiadau bywyd. Un o'r athrawon hyn yw Tim Hayes, Pennaeth y Chweched Dosbarth ac athro Bywydeg yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, Meddai Tim: *"Pan oeddwn yn y chweched dosbarth fy hun, byddwn yn gwirfoddoli i helpu gyda'r plant iau er enghraifft. Roeddwn i hefyd yn mwynhau rygbi ond ar ôl anaf difrifol, gwnes i droi at ddyfarnu ac rydw i wedi bod yn ffodus i ddyfarnu ar y llwyfan mwyaf oll, Cwpan y Byd. Yr her fwyaf i Tim, fodd bynnag, fyddai cyrraedd Ysgol Bro Myrddin ar fore Llun ar ôl dyfarnu gêm rhwng y Scarlets a'r Gweilch oedd ar y teledu dros y penwythnos. Meddai eto: "Doedd nunlle i guddio – roedd gen i 900 o feirniaid yn yr ysgol a byddai'r disgyblion bob amser yn cwestiynu fy mhenderfyniadau. Mae'n sicr yn cadw'ch traed ar y ddaear! Mae'n bosib bod yn athro a chael diddordebau; cadw'r cydbwysedd a sicrhau nad yw'n cymryd drosodd gormod yw'r gamp. Rhowch gynnig arni i weld a yw'n gweithio, oherwydd dydych chi byth yn gwybod ble y gall arwain. Yn y pen draw, bydd y sgiliau a'r profiad rydych chi'n eu hennill yn gwella dau faes eich bywyd."*



A throi at y bêl gron, ein llongyfarchiadau mawr i un o'n hieuenctid, Harri Howells, ar gael ei gynnwys yng Ngharfan Bechgyn Dan 16 Ysgolion Cymru. Adderchog a phob hwyl iddo!

Nid yw doniau Harri'n gyfyngedig i'r byd chwaraeon ychwaith a llongyfarchiadau iddo yntau a'i chwaer Gwenllian ar gael eu derbyn i Gerddorfa Ieuenctid Cymru ac i Gwenllian hefyd am ennill diploma ar y ffidil.



Archif, atgof a chân ar y thema enwau oedd cynnwys y rhaglen **Cofio** yng nghwmni John Hardy yn ddiweddar ar **Radio Cymru** a chlywsom Elinor Wyn Reynolds yn trafod arwyddocâd enwau llawn ei phlant, Caspar a Syfli, yn ddiddorol dros ben.

Bu'r Dr Angharad Wyn, yn rhinwedd ei swydd gydag Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe, yn sôn ar **Prynhawn Da** ar **S4C** am y cydweithio diweddar sydd wedi digwydd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo cynllun o'r enw *Doctoriaid Yfory* - math o raglen fentora i ddisgyblion ysgol neu raddedigion sy'n dymuno astudio meddygaeth yn y dyfodol agos.

Gwelwyd Nansi ac Annie, plant yn ein Hysgol Sul yn y gyfres **Awyr Iach – Cyw** ar **S4C** a Tomos Morgans yn y gyfres anturus, arswydus **Gwrach y Rhibyn – Stwnsh** ar **S4C**!

/ GLOI, da clywed am ffurfio'r grŵp lleol **Los Twangos** dan arweiniad Gareth Gravell. Pob hwyl iddynt wrth baratoi adloniant yn ein hardal, fel ar gyfer Clwb Cinio Meibion Caerfyrddin yn ddiweddar!

CYDYMDEIMLAD

Mae'n cydymdeimlad â Heather a Wyn sydd wedi cael dwy brofedigaeth yn ddiweddar. Collodd Heather ei chyfnither, Martha Alison Griffiths, Blaencorse, Sanclêr yng Nghartref Gofal Plas-y-dderwen ar 14 Ionawr 2022. Meddylw'n am ei phriod a'i phlant yn eu tristwch. Yna, collodd ei hewythr John Murray, Aberteifi ar 5 Chwefror 2022 ac mae'n meddyliau gyda'i briod a'i ferch a'r teulu cyfan yn eu galar.

Cydymdeimlwn â Gladwen Meredith ar golli'i hewythr, Y Parchedig Cledwyn Parry, Dinbych ar 10 Chwefror 2022 - un a wasanaethodd yn hirfaith yn y weinidogaeth gyda'r Wesleaid mewn sawl rhan o Gymru. Cofiwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth.

Rydym yn cydymdeimlo â Gwilym a Myfanwy Jones ar golli gefaill Gwilym, sef Maldwyn Jones, Croesoswallt ar 11 Chwefror 2022. Cofiwn am ei blant, Dilys, Mervyn, Gwyn a Mark a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â Menna Elfyn a Wynford James, Fflur Dafydd ac Iwan Evans a'r plant ar golli brawd Menna, sef Geraint Elfyn Jones, Llanbryn-mair, ar 13 Chwefror 2022. Meddylw'n am ei gymar Elisabeth a'r plant Sara, Bethan, Rhys ac Owain a'r teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar. Geraint oedd awdur y gyfrol *Bywyd a Gwaith John Dyfnallt Owen* a bydd nifer yn ei gofio'n cynnal oedfa yn y Priordy.

Cydymdeimlwn hefyd ag Elis a Meinir Jones, Steffan a Gareth ar golli modryb Elis, sef Maryl Thomas, Rhosaman ar 25 Chwefror 2022. Meddylw'n am y teulu cyfan yn eu hiraeth.



Y SULIADUR



Mawrth	6	Bore	Ein Gweinidog	C
	13	Bore	Ein Gweinidog	
	20	Bore	Ein Gweinidog	
Sul y Mamau	27	Bore	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog	

Ebril	3	Bore	Oedfa gyda'n Gweinidog.	
Sul y Blodau	10	Bore	Yr Aelodau	
Sul y Pasg	17	Bore	Ein Gweinidog	C
	24	Bore	Oedfa gyda'r Parchedig Robin Samuel	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC							
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant OD – Oedfa Deulu							
Mawrth				Ebrill			
6	13	20	27	3	10	17	24
YS	YS	YS	OD	✓	-	-	✓

Oedfa Fyw dros Zoom ar gyfer y sawl sy'n hunanynysu

Oedfa Ddigidol hefyd yn hwyrach ymlaen

DYDDIAD DATHLU NAWDDSEINTIAU - ATEBION							
1. 23 Ebrill	2. 17 Mawrth	3. 30 Tachwedd	4. 22 Tachwedd	5. 26 Gorffennaf	6. 20 Ionawr	7. 25 Ionawr	8. 14 Chwefror
9. 4 Hydref	10. 18 Hydref						

YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?

Cyswllt

PHILIP JONES

Trysorydd

☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk

